# Dyfarniad o £10 miliwn i hybu tirweddau naturiol gwarchodedig Cymru

28/03/2025



Cerddwyr ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Llun: National Trust Images, Paul Harris.

Bydd tri ar ddeg o brosiectau'n adfer ac yn cryfhau treftadaeth naturiol ledled Cymru diolch i grantiau gan y Gronfa Rhwydweithiau Natur.

O adeiladu tyrau ystlumod i ddarparu hyfforddiant mewn rheolaeth cefn gwlad, bydd yr ariannu'n helpu pobl i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i gefnogi adferiad byd natur.

Drwy gysylltu cymunedau a chynefinoedd, bydd y prosiectau llwyddiannus yn gwella cyflwr a chydnerthedd ardaloedd gwarchodedig Cymru o dir a môr, gan helpu byd natur i ffynnu.

## Cefnogi sgiliau a rhywogaethau

Mae Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru yn derbyn £971,888 i drawsnewid calon Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn dirwedd fywiog, cydnerth a thoreithiog o fywyd gwyllt.

Nod y prosiect yw adfer 500 hectar o gynefinoedd, ailgysylltu ecosystemau tameidiog a grymuso pobl o bob cefndir i hyfforddi mewn adferiad byd natur.

Bydd hyfforddeion a gwirfoddolwyr yn cael profiad ymarferol mewn hyb newydd ar fferm T? Mawr, a fydd hefyd yn helpu'r gymuned ehangach i gysylltu â byd natur trwy sgiliau cefn gwlad.



Lindsey Jones, o The Wildflower Nursery a Dr Sarah Beynon, o Dr Beynon's Bug Farm.

Ymhlith y sefydliadau eraill sy'n elwa o'r rownd ddiweddaraf o ddyfarniadau'r Gronfa Rhwydweithiau Natur mae:

- **Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent** (dyfarniad o £987,929), a fydd yn gweithio gyda phobl ifanc i sicrhau dyfodol yr ystlum pedol lleiaf drwy adeiladu 20 t?r ystlumod newydd
- **Dr Beynon's Bug Farm** (dyfarniad o £643,000), a fydd yn gwella Ardal Cadwraeth Arbennig Comin Gogledd Orllewin Sir Benfro ac yn datblygu Canolfan Addysgu Adfer Byd Natur â 100 o seddi

- **Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro** (dyfarniad o £995,542), a fydd yn adfer glaswelltir, rhostir, cors, coetir a chynefinoedd arfordirol yn ogystal â darparu hyfforddiant i wirfoddolwyr a thirfeddianwyr

Rydym wedi dosbarthu'r grantiau ar ran Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru.



Gwirfoddolwyr yn cyfrif ystlumod pedol lleiaf. Llun: Vincent Wildlife Trust/Daniel Hargreaves.

## Ymateb i'r argyfwng natur

Dywedodd Huw Irranca-Davies, y Dirprwy Brif Weinidog sy’n gyfrifol am Newid yn yr Hinsawdd: "Mae’r buddsoddiad sylweddol hwn yn dangos ein hymrwymiad parhaus i warchod treftadaeth naturiol Cymru.

“Trwy gefnogi’r 13 o brosiectau amrywiol hyn ar draws ein cenedl, rydym nid yn unig yn diogelu ecosystemau gwerthfawr ond hefyd yn grymuso cymunedau i ddod yn stiwardiaid eu hamgylcheddau lleol.

“Mae’r Gronfa Rhwydweithiau Natur yn arf hollbwysig yn ein hymateb i’r argyfwng natur, gan ein helpu i adeiladu Cymru fwy cydnerth ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol."

## Gwarchod treftadaeth naturiol y DU

Gweler y rhestr lawn o brosiectau sydd wedi'u hariannu yn y rownd hon o ddyfarniadau'r Gronfa Rhwydweithiau Natur a chael gwybod sut rydym yn cefnogi byd natur ar draws y DU.



## rdeb hefyd mewn ...

Hikers in the Brecon Beacons. Credit: Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog



## ddiad hanfodol o £2.7 miliwn

Credyd: Tim Jones Photography 2015.

## Dros £3.5 miliwn o ariannu wedi'i ddyfarnu i goedwigoedd a choetiroedd bach yng



Drew Bennellick, ein Pennaeth Tir, Môr a Natur, a Harriet Bennett, Swyddog Rheoli Tir prosiect Partneriaeth Tirwedd Chilterns, gydag Andrew Stubbings, o Manor Farm, sef enghraifft o dirwedd gysylltiedig. Ffoto:

Oliver Dixon.

**Ariannu gwerth £150miliwn i wella a gwarchod tirweddau safon fyd-eang y DU**